**STD 03-02(03)**

**PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher, 10 Gorffennaf 2002**
**Amser:** **9:30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Datgan Buddiannau yn y Cyfarfodydd Llawn**

1. Mynegwyd pryder yn y Pwyllgor Busnes ynghylch y trefniadau presennol ar gyfer datgan buddiannau yn y Cyfarfod Llawn (a'r Pwyllgorau). Cred rhai nad yw'r trefniadau presennol yn ddigon dealladwy i'r Aelodau ac o ganlyniad gall ddifrïo urddas y Cynulliad yn y Cyfarfod Llawn (fel rhyw don fawr o ddatganiadau).

2. Yn sgìl hyn, mae'r Ysgrifenyddiaeth ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Llywydd, David Lambert, wedi bod yn ystyried y trefniadau presennol i geisio gweld a oes modd eu symleiddio er mwyn osgoi amhariad tebyg i hwn tra'n cynnal gonestrwydd a chywirdeb y trefniadau presennol.

<u>Cynnig</u>

3. Ar ôl edrych unwaith eto ar Adran 72 o Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae posibilrwydd bod gofynion presennol y Cynulliad yn canolbwyntio gormod ar Adran 72(1) (cofrestru buddiannau) a heb roi digon o sylw i Adran 72(2) (datgan buddiannau - ac yn enwedig buddiannau ariannol).

4. Er mwyn gwneud iawn am hyn, yr ydym yn cynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog sydd wedi eu nodi yn Atodiad A.

<u>Effaith y Newidiadau</u>

A. <u>Yn Ystod Dadl</u>

1. Mewn gwirionedd, dim ond datganiad <u>llafar</u> fyddai ei angen cyn gwneud cyfraniad llafar, os gall y mater sydd ger bron y Cynulliad arwain at fantais ariannol uniongyrchol i'r Aelod (neu ei bartner/ei phartner neu blentyn sy'n dibynnu'n ariannol arnynt) o dan "Buddiannau Cofrestradwy" sydd wedi ei nodi yn RhS 4 Atodiad. Yn ogystal, ni fyddai'n rhaid iddynt wneud datganiad o'r fath oni bai fod y fantais "... yn fwy nag y gellir ei gasglu'n gyffredinol gan unigolyn yr effeithir arno/arni". Ymddengys hyn yn fwy tebyg i ofynion Adran 72 (2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer datgan materion ariannol yn orfodol tra gadewir datgan materion eraill i'r Cynulliad benderfynu arnynt.

2. Mae'r cynnig hwn yn sicrhau bod RhS 4.5 (darpariaeth i ddatgan ar lafar) yn fwy cyson â RhS 4.7 (gwahardd pleidleisio). Wrth wneud hyn, mae'n tynnu ar y

diffiniad o fuddiannau ariannol yng ngeiriad presennol RhS 4.7 (gwahardd pleidleisio).

B. Ar Adeg y Pleidleisio

3. Effaith RhS 4.7 ydyw nad oes rhaid i Aelodau sydd â buddiannau ariannol perthnasol wneud unrhyw ddatganiad ar wahân cyn pleidleisio. Pan fydd Aelod sydd â buddiant yn dod o dan RhS 4.5, ni fyddai'r Aelod yn pleidleisio hyd yn oed os yw'r Aelod eisoes wedi gwneud datganiad cyn roi cyfraniad llafar ai peidio. Nid oes unrhyw wahaniaeth fan hyn i'r sefyllfa bresennol.

4. Byddai'r buddiannau cofrestradwy presennol yn aros ac ni effeithir ar eu statws. Byddai'n rhaid i Aelodau barhau i gofrestru'r buddiannau sydd wedi eu nodi yn yr Atodiad i Rheol Sefydlog 4 ac os nad ydynt wedi cofrestru buddiant ac yn cymryd rhan mewn trafodion, yna fe allent fod yn atebol i gyfraith gwlad.

5. Cred swyddogion fod y trefniadau newydd yn fwy clir ac yn symlach; maent yn cynnal y safonau cywir heb golli tryloywder. Maent hefyd yn amlinellu i'r Aelodau a'r cyhoedd, bwysigrwydd y Gofrestr Buddiannau, a byddant yn amharu llai ar y Cyfarfodydd Llawn.

6. Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y mater hwn ac i roi gwybod i'r Pwyllgor Busnes a ddylent fabwysiadu'r newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ai peidio.

*Yr Ysgrifenyddiaeth*